29.11.24

Annwyl Syr/Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir cyfarfod FFORWM DERBYN YSGOLION CEREDIGION am **4.00yp** ar **Ddydd Iau, 5 Rhagfyr, 2024** i drafod y materion canlynol:

1. Ymddiheuriadau.

2. Datgelu buddiant personol.

3. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gyfarfu ar 9 Mai 2024.

4. Materion yn codi o'r Cofnodion.

5. Dogfen Gwybodaeth i Rieni.

6. Polisi Derbyn 2025-2026.

7. Niferoedd Blwyddyn 7 – Medi 2024.

8. Niferoedd Blwyddyn Derbyn – Medi 2024 a 2025.

9. Apeliadau Derbyn Ganol-Flwyddyn 2024-2025.

10. Unrhyw fater arall.

Dear Sir/Madam

I write to inform you that a Meeting of the CEREDIGION SCHOOLS ADMISSIONS FORUM will be held at **4.00pm** on **Thursday, 5 December, 2024** for the transaction of the following business:

1. Apologies.

2. Disclosure of personal interest.

3. To confirm the Minutes of the Meeting held on 9 May 2024.

4. Matters arising from the Minutes.

5. Information for Parents Document.

6. Admissions Policy 2025-2026.

7. Year 7 Numbers – September 2024.

8. Reception Year Numbers – September 2024 & 2025.

9. Mid-Year Admission Appeals 2024-2025.

10. Any Other Business.

**Yr eiddoch yn gywir/** Yours faithfully



***Miss Lowri Edwards***
***Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd/***
*Corporate Lead Officer, Democratic Services*

**At: Gadeirydd ac Aelodau Fforwm Derbyn Ysgolion Ceredigion**
To: Chairman and Members of the Schools Admissions Forum

**Cofnodion cyfarfod Fforwm Derbyn Ysgolion Ceredigion a gynhaliwyd yn rhithiol ar ZOOM ar ddydd Iau, 9 Mai 2024**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet ar gyfer Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; y Cynghorydd Endaf Edwards, Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu; Enid Brophy, Pennaeth: Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant; Lee Burrows, Pennaeth: Ysgol Cenarth a Llechryd; Peter Leggett, Pennaeth: Ysgol Gynradd Rhydypennau; Carys Morgan, Pennaeth: Ysgol Bro Pedr a Dorian Pugh, Pennaeth: Ysgol Henry Richard.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Elen James, Prif Swyddog Addysg a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes; Clive Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion; Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael; Gwion Dafydd, Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd; Cheryl Evans, Swyddog Derbyn Ysgolion; Carys Fowles, Cyfrifydd Cynorthwyol a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(4.00pm – 4.26pm)

1. **Ymddiheuriadau**
   i. Ymddiheurodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd ymrwymiadau eraill gyda'r Cyngor.
   ii. Ymddiheurodd Carol Davies, Pennaeth: Ysgol Dyffryn Cledlyn; Mair Hughes, Pennaeth: Ysgol Penglais; Catryn Lawrence, Pennaeth: Ysgol Penrhyncoch a Penllwyn ac Owain Jones, Pennaeth: Ysgol Gyfun Aberaeron am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

2. **Datgelu Buddiannau Personol**
   Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant personol.

3. **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2022**
   **CYTUNWYD** cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2022.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion**
   Dim.

5. **Dogfen Gwybodaeth i Rieni**
   Nododd y Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd fod y ddogfen i'w gweld ar lein a'i bod yn cael ei diweddaru yn ôl yr angen gan y Swyddog Derbyn Ysgolion.

   **CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth.

6. **Polisi Derbyn 2025-2026**
   Ystyriwyd y fersiwn ddiweddaraf o'r polisi, a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet ar 14 Mai 2024. Nodwyd fod y rhifau derbyn a chapasiti ar ddiwedd y ddogfen yn cael eu diwygio yn ôl yr angen.

   **CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth.

7. **Niferoedd Blwyddyn 7 - Medi 2023 a 2024**
   Eglurodd y Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd fod data 2023 a 2024 wedi'u rhannu er gwybodaeth. Er fod nifer o ysgolion uwchradd wedi yn agos i'r rhif derbyn, mae capasiti yn dal i fodoli ym mhob un.

   **CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth.

8. **Niferoedd Blwyddyn Derbyn – Medi 2023 & 2024**
   Nododd y Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd na welwyd llawer o broblemau o safbwynt derbyn disgyblion oedran derbyn. Mae'r data yn awgrymu y bydd nifer uchel o dderbyniadau i Ysgol Gynradd Aberaeron ym mis Medi 2024 felly mae'n bosib y bydd rhaid gwrthod rhai ceisiadau. Mewn ysgolion cynradd eraill lle mae'r nifer y disgyblion a dderbyniwyd yn uwch na'r rhif derbyn, ni wrthodwyd lle i unrhyw ddisgybl, gan fod llai o ddisgyblion yn y blynyddoedd uwch. Cyn gwrthod unrhyw gais, mae Swyddogion yn cysylltu gyda Phennaeth yr ysgol berthnasol i ofyn a ellir newid unrhyw beth yn fewnol i ganiatâi derbyn y disgybl.

   Mae Ysgol Gynradd Aberteifi wedi profi disgyniad sylweddol yn nifer y disgyblion oedran derbyn o oddeutu 60 y flwyddyn i 30 yn 2024. Mae Ysgol Gymraeg Aberystwyth wedi gweld nifer llai hefyd, yn rhannol oherwydd disgyniad yn y gyfradd genedigaethau sydd wedi cael effaith ar draws y sir. Rodd y gyfradd genedigaethau yng Ngheredigion yn 2022 o dan 500 am y tro cyntaf, o'i gymharu â 600 yn y gorffennol. Nodwyd fod cynnwys y gyfradd genedigaethau yn y model amcanestyniad mewnol dros y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at amcanestyniadau nifer disgyblion cymharol gywir.

   Nodwyd fod Ysgol Gynradd Plascrug yn agos i gapasiti ac y cynhaliwyd nifer o apeliadau yn ysgol blynyddoedd diweddar gan fod y galw yn uchel. Derbyniwyd pob disgybl oedran derbyn i'r ysgol, fodd bynnag gwrthodwyd llefydd i rai disgyblion sydd wedi symud i'r ardal gan fod blynyddoedd eraill yn llawn. Yn dilyn cyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) mewn 5 ysgol gan gynnwys Plascrug, fe all y galw newid oherwydd bydd pob ysgol yn cynnig yr un ddarpariaeth ieithyddol.

   Yn dilyn cwestiwn gan y Cynghorydd Endaf Edwards, nodwyd fod hanner isaf Ysgol Gynradd Cenarth yn eithaf llawn a bod nifer y disgyblion oedran derbyn yn agos i'r rhif derbyn, fodd bynnag mae peth capasiti yn hanner uchaf yr ysgol.

   **CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth.

9. **Apeliadau Derbyn Ganol Flwyddyn 2022-2024 a 2023-2024**
   Darparwyd gwybodaeth yn ymwneud ag Apeliadau Derbyn Canol-Blwyddyn 2022-2023. Yn ystod y cyfnod hwn, o gyfanswm o 9 apêl a gynhaliwyd (Aberaeron x1, Ciliau Parc x3, Dyffryn Cledlyn x1, Plascrug x1, Rhydypennau x2 and T.Llew Jones x1), dyrannwyd lle i bob disgybl yn yr ysgol o'i dewis. Cynhaliwyd cyfanswm o 13 apêl yn 2023-3034 hyd yma (Aberaeron x4, Ciliau Parc x1, Felinfach x3, Plascrug x3, T.Llew Jones x2). Collodd yr ALl bob un, heblaw am 2 apêl yn Aberaeron, lle dyrannwyd llefydd yn dilyn hyn mewn ysgolion cyfagos.

   Gofynnodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes a oedd nifer yr apeliadau derbyn wedi cynyddu dros y blynyddoedd, gan taw hyn oedd y sefyllfa o safbwynt nifer yr apeliadau yn ymwneud â thrafnidiaeth i'r ysgol a dderbyniwyd.

   Esboniodd y Swyddog Derbyn Ysgolion fod nifer yr apeliadau wedi cynyddu ychydig, o bosib gan fod mwy o rieni yn barod i apelio penderfyniad yn hytrach na chael eu gosod ar restr aros. Mae nifer o ffactorau yn cael effaith ar y broses dderbyn, fel nifer y bobl sy'n symud i'r ardal a datblygiadau tai mawr. Mae'n anodd asesu'r olaf gan na ellir rhagamcan demograffeg tai newydd.

   **CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth.

10. **Unrhyw fater arall**
    Nodwyd fod pob plentyn sydd ar fin cychwyn yn Ysgol Dyffryn Aeron wedi derbyn llythyr gan y Swyddog Derbyn Ysgolion yn cynnig lle iddynt yn yr ysgol newydd. Mae disgyblion sydd ar hyn o bryd yn y dair ysgol a fydd yn cau hefyd wedi derbyn lle yn yr ysgol newydd. Er na fydd yr ysgol newydd yn agor yn swyddogol gan Ionawr 2024, fe fydd yr ysgol (sydd â chapasiti o 201 a rhif derbyn o 30) ar lein fel opsiwn yn dilyn y gwyliau hanner tymor.

11. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**
    Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w ddosbarthu maes o law.

Cyngor Sir Ceredigion

Gwasanaeth Ysgolion

# Polisi Derbyn Ysgolion 2025/2026

## Contents


DERBYN ..... 3
AWDURDODAU DERBYN ..... 3
GWYBODAETH DDEFNYDDIOL ..... 4
Fforwm Derbyn ..... 4
Cludiant ..... 4
Addysg Ddewisol yn y Cartref ..... 4
1. OED Y GALL PLANT DDECHRAU YSGOL ..... 5
2. AMSERLEN DDERBYN ..... 6
3. Y BROSES DDERBYN ..... 7
3.1 DEWIS Y RHIENI ..... 7
3.2 DEWIS YSGOL ..... 7
3.3 GWNEUD CAIS AM LE MEWN YSGOL ..... 7
3.4 DYRANNU LLEOEDD ..... 8
3.5 MEINI PRAWF GORDANYSGRIFIO ..... 8
3.6 CYFEIRIAD CARTREF ..... 9
3.7 NEWID CYFEIRIAD ..... 9
3.8 TEULUOEDD GWEITHWYR LLUOEDD ARFOG Y D.U. A GWEISION ERAILL Y GORON (gan gynnwys DIPLOMYDDION) ..... 9
3.9 DISGYBLION A WAHARDDWYD ..... 9
4. CYNNIG LLE MEWN YSGOL (RHOI GWYBOD AM GYNNIG) ..... 10
4.1 YSGOL AML-SAFLE ..... 10
4.2 GRWPIAU BLWYDDYN ..... 10
4.3 DECHRAU YSGOL ..... 10
4.4 TYNNU'R CYNNIG O LE YN ÔL ..... 10
5. CEISIADAU AFLWYDDIANNUS ..... 11
5.1 APELIADAU ..... 11
5.2 RHESTRAU AROS ..... 11
6. GWNEUD CAIS Y TU ALLAN I'R ROWND DERBYN ARFEROL ..... 12
6.1 SYMUD I'R ARDAL ..... 12
6.2 NEWID YSGOL YN YSTOD Y FLWYDDYN ..... 12
6.3 LLEOEDD CHWECHED DOSBARTH ..... 12
ATODIAD A – Niferoedd Derbyn a Chapasiti Ysgolion ..... 13
Ysgol Gynradd (Ysgol 3 – 11 gyda Darpariaeth Feithrin) ..... 13
Ysgol Gynradd (Ysgol 4 – 11 heb Ddarpariaeth Feithrin) ..... 13
Ysgol Ganol 3 - 16 ..... 14
Ysgol Ganol 3 - 19 ..... 14
Ysgolion Uwchradd ..... 15
ATODIAD B – EITHRIADAU I'R FENTER MAINT DOSBARTHIADAU BABANOD ..... 16

## DERBYN

Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn pennu swyddogaethau i Awdurdodau Derbyn, Paneli Apêl a Fforymau Derbyn mewn perthynas â derbyn disgyblion i ysgolion.

Awdurdod Lleol (ALl) Ceredigion yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr holl ysgolion a gynhelir ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir yng Ngheredigion.

Gydag Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir, mae'r Corff Llywodraethu'n gweithredu fel Awdurdod Derbyn. Mae Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yn ysgol a ariannir gan y wladwriaeth lle mae sefydliad neu ymddiriedolaeth (sefydliad crefyddol fel arfer) yn cyfrannu at y costau adeiladu ac yn cael dylanwad sylweddol ar y ffordd mae'r ysgol yn cael ei rhedeg.

Mae gan bob un o'r cyrff hyn ddyletswydd statudol i "weithredu" yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion a'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion.

## AWDURDODAU DERBYN

### Ar gyfer Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir

Mae holl ysgolion Ceredigion (ac eithrio Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant) yn dod o fewn y categori hwn, a rheolir y broses dderbyn gan ALl Ceredigion, nid yr Ysgolion neu'u Cyrff Llywodraethu. Gydag ysgolion o'r fath, dylid gwneud pob cais i'r ALl ac nid i'r Ysgol am mai'r ALl yw'r unig gorff a all gynnig lleoedd ysgol.

Mae manylion cyswllt yr Awdurdod Derbyn fel a ganlyn:

**Tîm Derbyniadau**
Gwasanaeth Ysgolion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

**Dylid gwneud ceisiadau trwy ddefnyddio'r ffurflen dderbyn ar-lein, sydd ar gael ar wefan Ceredigion (www.ceredigion.gov.uk).**

### Ar gyfer Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir

Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant yw'r unig ysgol o'i math yng Ngheredigion. Dylid gwneud ymholiadau derbyn i'w Chorff Llywodraethu, er y bydd unrhyw ffurflenni ar-lein a dderbynnir gan yr ALl yn cael eu hanfon ymlaen i'r ysgol. Mae cyfeiriad yr ysgol fel a ganlyn:

**Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant**
Ffordd Llanbadarn
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 1EZ

## GWYBODAETH DDEFNYDDIOL

### Fforwm Derbyn

Mae Fforwm Derbyn Ceredigion yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn i drafod materion derbyn lleol. Cynrychiolir Penaethiaid, Llywodraethwyr, Rhieni ac Awdurdodau Esgobaethol.

Mae cofnodion y cyfarfodydd ar gael ar wefan Ceredigion.

| |
|---|
| Trwy gydol y ddogfen hon bydd y gair **Rhieni** yn golygu nid yn unig y rhieni ond unrhyw berson(au) sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol fel rhiant plentyn. |

### Cludiant

Mae'r ALl yn darparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer plant oed ysgol statudol (y tymor ar ôl eu 5^ed^ pen-blwydd) ar sail y canlynol:

- Disgyblion oed cynradd sy'n byw dros ddwy filltir i ffwrdd o'r ysgol gynradd addas agosaf;

- Disgyblion oed uwchradd sy'n byw dros dair milltir i ffwrdd o'r ysgol uwchradd addas agosaf.

Mesurir y pellter yn ôl y llwybr cerdded byrraf rhwng yr ysgol â'r cartref. O'r ffordd fawr agosaf at yr eiddo at brif fynedfa'r ysgol.

Mae gwybodaeth bellach ar gael oddi wrth yr Uned Cludiant (01545 570881).

### Addysg Ddewisol yn y Cartref

Gall rhieni hefyd ddewis addysgu'u plant gartref. Gelwir hyn yn Addysg Ddewisol yn y Cartref. Mae angen meddwl yn ofalus cyn penderfynu addysgu gartref, am ei fod yn gofyn llawer yn nhermau ymrwymiad, amser a chost.

Cynghorir rhieni sy'n ystyried yr opsiwn hwn i gysylltu â'r ALl, a gofyn am arweiniad oddi wrth y Swyddog Addysg Ddewisol yn y Cartref, ar 01970 633624.

## 1. OED Y GALL PLANT DDECHRAU YSGOL

### 1.1 Plant Oed Meithrin – 3 Oed

| Oed | Dyddiad y mae'n rhaid cyrraedd yr oed priodol | Tymor Derbyn |
|---|---|---|
| 3 | 31 Rhagfyr 2024<br>31 Mawrth 2025<br>31 Awst 2025 | Gwanwyn 2025<br>Haf 2025<br>Hydref 2025 |

Nid yw bod yn ddisgybl mewn Dosbarth Meithrin yn golygu bod plentyn yn gymwys i gael ei dderbyn i'r Dosbarth Derbyn. Bydd angen i Rieni/Gwarcheidwaid wneud cais ar wahân.

### 1.2 Plant Oed Cynradd - 4 Oed

| Oed | Dyddiad y mae'n rhaid cyrraedd yr oed priodol | Tymor Derbyn |
|---|---|---|
| 4 | 31 Rhagfyr 2024<br>31 Mawrth 2025<br>31 Awst 2025 | Gwanwyn 2025<br>Haf 2025<br>Hydref 2025 |

Nid yw deddfwriaeth yn gwneud hi'n ofynnol i blentyn ddechrau ysgol tan y tymor ar ôl ei bumed pen-blwydd, a gall y rhiant ohirio'r mynediad tan yr oed hwnnw. Fodd bynnag, rhaid cyflwyno ceisiadau am dderbyn gohiriedig erbyn yr un dyddiad cau â cheisiadau arferol (gweler adran 2 am fanylion dyddiadau cau).

### 1.3 Plant Oed Uwchradd – 11 Oed

| Oed | Dyddiad y mae'n rhaid cyrraedd yr oed priodol | Tymor Derbyn |
|---|---|---|
| 11 | 31 Awst 2025 | Hydref 2025 |

Gwahoddir rhieni disgyblion blwyddyn 6 i fynegi'u dewis o Ysgol Uwchradd yn Nhymor yr Hydref yn y flwyddyn cyn y trosglwyddo.

Ni fydd disgyblion Blwyddyn 6 sy'n mynychu Ysgol Ganol ac sy'n bwriadu aros yn yr ysgol honno yn gorfod gwneud cais ar gyfer y cyfnod Uwchradd.

Gweler Atodiad A am enwau Ysgolion Ceredigion a'r math o ddarpariaeth a gynigir h.y. Meithrin, Cynradd neu Uwchradd.

## 2. AMSERLEN DDERBYN

| Darpariaeth | **Oed** | **Dechrau Ysgol** | **Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau** | **Dyddiad Cynnig/ Hysbysu** | **Dyddiad Cau ar gyfer Apelio** |
|---|---|---|---|---|---|
| Plant Oed Meithrin. | **3ydd Penblwydd** 1af Medi 2024 i 31ain Awst 2025 | Ionawr, Ebrill, Medi 2025 | **31ain Ionawr 2024** | 16eg Ebrill 2024 | Dim hawl i Apelio |
| Plant Oed Cynradd.<br><br>(Does dim trosglwyddo awtomatig o'r ddarpariaeth Feithrin – bydd angen gwneud cais ar wahân). | **4ydd Penblwydd** 1af Medi 2024 i 31ain Awst 2025 | Ionawr, Ebrill, Medi 2025 | **31ain Ionawr 2024** | 16eg Ebrill 2024 | 10 Diwrnod Gwaith o dderbyn y Llythyr Gwrthod. |
| Plant Oed Uwchradd.<br><br>(Ceisiadau ar gyfer disgyblion cynradd sy'n dechrau Blwyddyn 7 yn yr uwchradd). | **Penblwydd yn 11 oed** 1af Medi 2024 i 31ain Awst 2025 | Medi 2025 | **20fed Rhagfyr 2024** | 3ydd Mawrth 2025 | 10 Diwrnod Gwaith o dderbyn y Llythyr Gwrthod. |

# 3. Y BROSES DDERBYN

## 3.1 DEWIS Y RHIENI

Er bod y rhan fwyaf o rieni'n anfon eu plentyn i'r ysgol agosaf, mae ganddynt yr hawl i ddewis unrhyw ysgol yng Ngheredigion.

Gellir gwneud newidiadau i'r dewis o ysgol ar unrhyw adeg hyd at y dyddiad cau (gweler y Tabl Derbyn yn adran 2) – bydd angen i rieni wneud hyn yn ysgrifenedig (i'r Tîm Derbyn) yn ogystal â chyflwyno cais newydd.

Bydd unrhyw newid o ran y dewis o ysgol ar ôl y dyddiad cau yn cael ei drin fel cais hwyr.

Gellir dewis tair ysgol (gan nodi trefn blaenoriaeth). Os na fydd yr ALl yn gallu cynnig lle yn y dewis cyntaf, yna ystyrir yr ail ddewis ac yn y blaen.

## 3.2 DEWIS YSGOL

Pa bynnag ysgol a ddewisir gan y rhieni, argymhellir eu bod yn cysylltu, yn trafod, ac yn ymweld â'r ysgol(ion) a ddewiswyd er mwyn cael gwybod pa gyfleusterau a chyfleoedd sydd ar gael.

## 3.3 GWNEUD CAIS AM LE MEWN YSGOL

Bydd angen i bob cais gael eu gyflawni a'u gyflwyno erbyn y dyddiadau cau a osodir yn yr Amserlen Dderbyn yn Adran 2. Ar ôl y dyddiad cau, bydd yr holl geisiadau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau'n cael eu prosesu. Bydd unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau'n cael eu hystyried ar ôl yr holl geisiadau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau, oni bai bod yna resymau eithriadol dros gyflwyno cais hwyr

e.e. pan fydd y teulu wedi symud i'r ALl rhwng y dyddiad cau a'r dyddiad cynnig lle (ac os felly bydd angen tystiolaeth o'r newid cyfeiriad) neu pan fydd yna resymau eithriadol dros fethu â chyflwyno cais ar amser.

Rhaid nodi rhesymau dros geisiadau hwyr yn ysgrifenedig gyda'r cais, gan gynnwys unrhyw ddogfennau/datganiadau ategol priodol.

### 3.4 DYRANNU LLEOEDD

Bydd yr ALl yn derbyn plant hyd at nifer derbyn yr ysgol a ffefrir. Serch hynny, pan fydd y lle olaf a ddyrannir (hyd at y nifer derbyn) yn un o enedigaeth luosog, bydd yr ALl hefyd yn derbyn y brawd/chwaer neu frodyr/chwiorydd arall/eraill.

Mae'r Nifer Derbyn yn nodi nifer y disgyblion y gellir eu derbyn i bob grŵp blwyddyn yn yr ysgol.

**Mae'r Nifer Derbyn ar gyfer pob ysgol i'w weld yn Atodiad A: Niferoedd Derbyn a Chapasiti Ysgolion.**

Cyfrifir y nifer gan ddefnyddio fformiwla Llywodraeth Cymru - 'Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru'. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.wales.gov.uk.

### 3.5 MEINI PRAWF GORDANYSGRIFIO

Mewn achosion lle mae nifer y ceisiadau'n fwy na'r Nifer Derbyn yna bydd y lleoedd ysgol yn cael eu dyrannu yn ôl y meini prawf gordanysgrifio isod (a restrir yn nhrefn blaenoriaeth):

- plant sy'n derbyn gofal neu a oedd yn arfer derbyn gofal (sydd wedi'u mabwysiadu neu'n destun gorchymyn preswyl neu orchymyn gwarcheidwaeth arbennig yn union ar ol bod mewn gofal). Bydd angen tystiolaeth bod y plentyn yn arfer derbyn gofal;
- yr ysgol a ffefrir yw'r ysgol addas agosaf ac mae gan y plentyn **frawd neu chwaer** yn mynychu'r ysgol pan fyddant hwy'n dechrau ei mynychu;
- yr ysgol a ffefrir yw'r ysgol addas agosaf;
- plant nad yr ysgol honno yw'r ysgol addas agosaf atynt, ond sydd â brawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol pan fyddant hwy'n dechrau ei mynychu.

**Diffinnir brodyr a chwiorydd fel a ganlyn:** disgyblion gyda brodyr neu chwiorydd llawn, hanner brodyr neu chwiorydd, llys frodyr neu chwiorydd, neu blant a fabwysiadwyd neu blant maeth sy'n mynychu'r ysgol a ffefrir, ac sy'n byw ar yr un aelwyd.

Pan fod mwy nag un plentyn yn cwrdd â'r meini prawf hyn a bod yna ymgeiswyr ar ôl o hyd, yna bydd y plentyn sy'n byw agosaf at yr ysgol yn cael ei dderbyn. Mesurir pob pellter yn ôl y llwybr cerdded byrraf (gan ddefnyddio Google Maps) rhwng prif gât yr ysgol â'r man lle mae cartref y plentyn yn cwrdd â'r briffordd.

## 3.6 CYFEIRIAD CARTREF

Cyfeiriad cartref y disgybl yw'r eiddo preswyl sy'n unig gartref neu'n brif gartref swyddogol iddo/iddi, sydd un ai:

- yn berchen i'r rhiant/rhieni neu'r sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn; neu
- ar brydles neu'n cael ei rentu gan riant/rhieni'r plentyn neu'r sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant dan gytundeb rhentu ysgrifenedig.

Pan fydd y cyfrifoldeb rhiant yn cael ei rannu, a bod y plentyn yn byw gyda'r ddau riant neu berson sydd â chyfrifoldeb rhiant, am ran o'r wythnos, yna ystyrir mai'r cartref swyddogol yw'r cyfeiriad y mae'r plentyn yn byw ynddo am y rhan fwyaf o'r wythnos ysgol (h.y. 3 allan o 5 diwrnod).

Mae'r ALl yn cadw'r hawl i ofyn am brawf o gyfeiriad ar unrhyw adeg yn ystod y broses dderbyn.

## 3.7 NEWID CYFEIRIAD

Pan fydd teulu'n symud a bod y rhieni'n gwneud cais am dderbyn plentyn i ysgol ar sail eu cyfeiriad newydd, gall yr ALl gymryd camau i wirio'r trefniadau.  Bydd yr ALl yn derbyn un ai:

- llythyr cyfreithiwr yn nodi bod cytundeb wedi'i gyfnewid ynghyd â dyddiad cwblhau;
- cytundeb tenantiaeth sydd wedi'i lofnodi a'i ddyddio.

Os na ellir darparu prawf o'r cyfeiriad newydd, yna seilir y cais ar y cyfeiriad presennol.

## 3.8 TEULUOEDD GWEITHWYR LLUOEDD ARFOG Y D.U. A GWEISION ERAILL Y GORON (gan gynnwys DIPLOMYDDION)

Mae'r teuluoedd uchod yn tueddu i symud yn aml o fewn y Deyrnas Unedig ac o dramor, a hynny'n aml ar rybudd cymharol fyr.  O ganlyniad, bydd ceisiadau am leoedd ar gyfer y flwyddyn ysgol sydd i ddod yn cael eu hystyried os byddant yn dod gyda llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn neu'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad, yn nodi dyddiad dychwelyd.  Yna dyrannir lleoedd ysgol os byddai'r ymgeisydd yn cwrdd â'r meini prawf ar ôl symud i'r cyfeiriad newydd.

Bydd cyfeiriadau post unedau'n cael eu derbyn hefyd ar gyfer ceisiadau oddi wrth y lluoedd arfog, yn absenoldeb cyfeiriad post newydd.

## 3.9 DISGYBLION A WAHARDDWYD

Os bydd disgybl eisoes wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu ragor, er y gall rhiant nodi ei fod yn ffafrio ysgol benodol ar gyfer addysg y plentyn, does dim rhaid i'r ALl gydymffurfio â'r dymuniad hwnnw am gyfnod o ddwy flynedd o ddyddiad y gwaharddiad diweddaraf.

## 4. CYNNIG LLE MEWN YSGOL (RHOI GWYBOD AM GYNNIG)

Bydd rhieni'n derbyn e-bost yn cadarnhau, neu beidio, bod lle ar gael yn yr ysgol ac yn cynnig cyfle iddyn nhw dderbyn y lle hwnnw.

Anfonir ebysts ynghylch penderfyniadau ceisiadau **Ysgolion Uwchradd** ar y **3ydd o Fawrth 2025** ac ar gyfer ceisiadau **Ysgolion Cynradd** ar y **16eg Ebrill 2024.**

Bydd angen derbyn yr holl gynigion. Mi fydd yr ebost a anfonir atoch yn cynnwys dolen a fydd yn caniatáu i chi wneud hynny.

Os nad yw'r cynnig yn cael ei dderbyn, yna gall y lle hwnnw gael ei dynnu'n ôl a'i gynnig i ddisgybl arall.

### 4.1 YSGOL AML-SAFLE

Bydd cynigion Ysgol sy'n gweithredu ar fwy nag un safle ar gyfer yr Ysgol ac nid ar gyfer safle penodol.

Mater ar gyfer trefniadaeth fewnol yr ysgol yw'r safle a fynychir gan y plant. Ni ellir apelio yn erbyn y safle a ddyrannir.

### 4.2 GRWPIAU BLWYDDYN

Bydd disgyblion yn cael eu derbyn i'r grŵp blwyddyn sy'n briodol ar gyfer eu hoed cronolegol. Mae hyn yn gyson gyda Pholisi Anghenion Addysg Arbennig Ceredigion (http://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/ysgolion-ac-addysg/anghenion-addysg-arbennig-aaa/) a Dogfen Egwyddorion a Disgwyliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol Ceredigion (https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/ysgolion-ac-addysg/anghenion-dysgu-ychwanegol/), sy'n datgan y gall ysgol ei chael yn briodol i gynnig gwersi penodol i ddisgyblion, am gyfnod cyfyngedig, mewn grwpiau addysgu is neu uwch fel rhan o wahaniaethu arferol o fewn y brif ffrwd, ond ni ddylid gosod disgyblion yn barhaol mewn grwpiau cofrestru hŷn neu iau na'u hoed cronolegol.

Nid oes unrhyw hawl i apelio os bydd lle wedi'i gynnig, ond nid yn y grŵp blwyddyn a ddymunir.

### 4.3 DECHRAU YSGOL

**Oni bai bod yna resymau eithriadol, disgwylir i'r plentyn ddechrau'r ysgol ar y dyddiad a nodir yn y cynnig.** Bydd angen trafod unrhyw oedi o ran dechrau gyda'r Ysgol oherwydd ni fydd modd cadw'r lle am gyfnod amhenodol. Gwneir penderfyniadau ynghylch pa mor hir y dylid cadw lle fesul achos, ac mewn ymgynghoriad â'r rhieni a'r ysgol. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd lle'n cael ei gadw am fwy na 6 wythnos.

### 4.4 TYNNU'R CYNNIG O LE YN ÔL

Bydd y cynnig o le mewn ysgol yn cael ei dynnu'n ôl ar sail y canlynol:

- Darganfod ar ôl gwneud y cynnig bod y cais yn un twyllodrus neu'n fwriadol gamarweiniol (megis rhoi cyfeiriad ffug sy'n agosach at yr ysgol).
- Cadarnhad bod y lle'n cael ei dderbyn heb ei ddychwelyd i'r ALl erbyn y dyddiad a nodwyd yn y cynnig.

## 5. CEISIADAU AFLWYDDIANNUS

Os na fydd rhieni'n llwyddo i gael lle i'w plentyn yna byddant yn cael gwybod beth yw'r rheswm am hynny, a'u hawl i wneud apêl annibynnol.

### 5.1 APELIADAU

Bydd angen i'r rhieni anfon llythyr yn gofyn am apêl i Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion o fewn 10 diwrnod o'r dyddiad y cawsant eu hysbysu bod eu cais am le'n aflwyddiannus.

Gwneir trefniadau i'r panel apêl gwrdd trwy adran Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor Sir Ceredigion.

**Nid oes unrhyw hawl i apelio yn erbyn darpariaeth feithrin anstatudol.**

Nid yw'r penderfyniad i wrthod yn cael ei wneud yn ysgafn, ac fe'i gwneir pan fydd y nifer derbyn wedi'i gyrraedd yn unig a/neu pan fydd dosbarth babanod (h.y. blwyddyn derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2) yn croesi'r trothwy 30. Mae Rheoliadau Llywodraeth Cymru'n gofyn bod Awdurdodau'n cyfyngu maint dosbarthiadau babanod i 30 o ddisgyblion. Byddai derbyn mwy na hynny'n creu rhagfarn maint dosbarth, hynny yw, yn rhagfarnu yn erbyn addysg effeithlon neu ddefnydd effeithlon o adnoddau. Ni fyddai rhagfarn maint dosbarth babanod i'w gael mewn achosion lle nad oedd nifer derbyn yr ysgol wedi'i gyrraedd.

Mae yna, fodd bynnag, eithriadau i'r rheoliadau hyn (a elwir yn "ddisgyblion a eithrir") a all ganiatáu croesi'r trothwy o 30 disgybl mewn dosbarth. Ceir rhestr lawn o 'ddisgyblion a eithrir' yn Atodiad B.

### 5.2 RHESTRAU AROS

Bydd unrhyw blentyn sydd ddim yn cael cynnig lle yn ei ddewis cyntaf o ysgol yn cael ei gadw ar restr aros tan 30ain Medi yn y flwyddyn academaidd berthnasol.

Os bydd lleoedd yn dod ar gael yna byddant yn cael eu dyfarnu yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio, yn hytrach na maint yr amser ers cyflwyno'r cais.

# 6. GWNEUD CAIS Y TU ALLAN I'R ROWND DERBYN ARFEROL

## 6.1 SYMUD I'R ARDAL

Dylai rhieni sy'n symud i'r ardal gyflwyno cais ddim cynharach na thymor cyn y dyddiad y rhagwelir y bydd eu plentyn/plant yn dechrau

e.e. os oes angen lle yn nhymor y gwanwyn yna dylid cyflwyno'r cais ddim cynharach na dechrau tymor yr hydref blaenorol.

Bydd ceisiadau a gyflwynir dros dymor ymlaen llaw'n cael eu cadw tan yr adeg briodol.

Gall oedi o ran symud i'r ardal arwain at dynnu cynigion yn ôl.

## 6.2 NEWID YSGOL YN YSTOD Y FLWYDDYN

Mae angen ystyried yn ofalus cyn newid ysgol a dylid trafod y mater yn llawn gyda Phennaeth ysgol bresennol y plentyn yn y lle cyntaf.

Os bydd rhieni'n dal i fod angen symud eu plentyn o un ysgol i un arall, yna rhaid iddyn nhw gyflwyno cais i wneud hynny.

## 6.3 LLEOEDD CHWECHED DOSBARTH

Mae holl Ysgolion Uwchradd ac Ysgolion Canol Ceredigion yn gyfrifol am eu derbyniadau 6ed dosbarth eu hunain a dylech gyflwyno bob cais yn uniongyrchol i'ch dewis ysgol.

## ATODIAD A – Niferoedd Derbyn a Chapasiti Ysgolion

### Ysgol Gynradd (Ysgol 3 – 11 gyda Darpariaeth Feithrin)

| Ysgol | Capasiti | Nifer Derbyn |
|---|---|---|
| Aberaeron | 201 | 28 |
| Aberteifi | 421 | 60 |
| Bro Sion Cwilt | 147 | 21 |
| Cenarth | 97 | 13 |
| Dyffryn Cledlyn | 120 | 17 |
| Llwyn-Yr-Eos | 206 | 29 |
| Plascrug | 409 | 58 |
| Rhydypennau | 190 | 27 |
| T. Llew Jones | 180 | 25 |
| Y Dderi | 133 | 19 |
| Y Gymraeg | 370 | 52 |

Bydd angen i ddisgyblion Meithrin wneud cais ar gyfer y Cyfnod Cynradd.

### Ysgol Gynradd (Ysgol 4 – 11 heb Ddarpariaeth Feithrin)

| Ysgol | Capasiti | Nifer Derbyn |
|---|---|---|
| Aberporth | 181 | 25 |
| Cei Newydd | 98 | 14 |
| Ciliau Parc | 68 | 9 |
| Comins Coch | 202 | 28 |
| Craig yr Wylfa | 74 | 10 |
| Dihewyd | 35 | 5 |
| Felinfach | 60 | 8 |
| Llanarth | 86 | 12 |
| Llanfarian | 56 | 8 |
| Llanfihangel-y-Creuddyn | 37 | 5 |
| Llangwyryfon | 55 | 7 |
| Llanilar | 173 | 24 |
| Llannon | 59 | 8 |
| Llechryd | 90 | 12 |
| Myfenydd | 91 | 13 |
| Mynach | 51 | 7 |

| | | |
|---|---|---|
| Padarn Sant | 134 | 19 |
| Penllwyn | 54 | 7 |
| Penparc | 146 | 20 |
| Penrhyncoch | 113 | 16 |
| Pontrhydfendigaid | 98 | 14 |
| Rhos Helyg | 127 | 17 |
| - Campws Llangeitho | **Mae Rhos Helyg yn gweithredu ar ddau safle.** Bydd y lleoedd a gynigir ar gyfer yr ysgol yn hytrach na safle penodol. Mater ar gyfer trefniadaeth fewnol yr ysgol fydd y safle a fynychir gan y plant. | |
| - Campws Rhos Y Wlad | | |
| Syr John Rhys | 39 | 5 |
| Talgarreg | 63 | 9 |
| Talybont | 127 | 18 |

## Ysgol Ganol 3 - 16

| Ysgol | Capasiti | Nifer Derbyn |
|---|---|---|
| Henry Richard | | |
| Henry Richard 3 - 11 | 120 | 17 |
| Henry Richard 11 – 16 | 373 | 74 |

## Ysgolion Ganol 3 - 19

| Ysgol | Capasiti | Nifer Derbyn |
|---|---|---|
| Bro Pedr | | |
| Bro Pedr (3-11) | 376 | 53 |
| Bro Pedr (11-19) | 841 | 150 (Bl. 7 – 11) |
| Bro Teifi | | |
| Bro Teifi (3-11) | 360 | 51 |
| Bro Teifi (11 – 19) | 678 | 111 (Bl. 7 – 11) |

Ni fydd disgyblion oed Cynradd (4 – 11) sy'n bwriadu aros yn eu hysgol yn gorfod gwneud cais i'r Cyfnod Uwchradd.

## Ysgolion Uwchradd

| Ysgol | Capasiti | Nifer Derbyn (Bl. 7 – 11) |
|---|---|---|
| Aberaeron | 965 | 156 |
| Aberteifi | 691 | 115 |
| Penglais | 1336 | 209 |
| Penweddig | 1070 | 170 |

## ATODIAD B – EITHRIADAU I'R FENTER MAINT DOSBARTHIADAU BABANOD

- Plant y mae eu datganiadau AAA yn nodi y dylent gael eu haddysgu yn yr ysgol dan sylw, ac a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i rownd dderbyn arferol.
- Plant y mae awdurdodau lleol yn gofalu amdanynt (plant sy'n derbyn gofal), neu nad ydynt yn cael gofal bellach (plant oedd yn arfer derbyn gofal) am eu bod wedi'u mabwysiadu neu'u gosod gyda theulu, neu wedi cael gwarcheidwad arbennig, ac sy'n cael eu derbyn i'r ysgol y tu allan i rownd dderbyn arferol.
- Plant na chafodd eu derbyn i ysgol yn y lle cyntaf, ond a gafodd gynnig lle wedi hynny yn sgil cyfarwyddyd panel apeliadau derbyn, neu am fod y sawl oedd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad gwreiddiol yn cydnabod bod camgymeriad wedi'i wneud wrth weithredu trefniadau derbyn yr ysgol.
- Plant a dderbynnir y tu allan i'r rownd dderbyn arferol:
  - y mae'r awdurdod lleol cynhaliol wedi cadarnhau na allant gael lle mewn unrhyw ysgol addas arall o fewn pellter rhesymol i'w cartref am eu bod wedi symud i'r ardal y tu allan i rownd dderbyn arferol, neu
  - sydd am gael addysg grefyddol neu addysg Gymraeg, ac mai'r ysgol dan sylw yw'r unig ysgol addas o fewn pellter rhesymol.
- Plant a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i rownd dderbyn arferol y trefnodd yr ysgol ei dosbarthiadau yn ei sgil ac ar ôl diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol, y byddai ei effaith yn golygu y byddai'r ysgol yn gorfod cymryd mesur perthnasol os nad oedd y plant yn ddisgyblion a eithrir.
- Plant gweithwyr y lluoedd arfog a dderbynnir y tu allan i rownd dderbyn arferol.
- Plant y mae eu hefaill neu frawd neu chwaer o enedigaeth luosog wedi'u derbyn fel y disgybl(ion) nas eithrir olaf cyn croesi'r trothwy nifer derbyn.
- Plant sy'n ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion arbennig, ond sy'n cael rhan o'u haddysg mewn ysgol brif ffrwd.
- Plant gydag AAA sydd fel arfer yn cael eu haddysgu mewn uned arbennig o fewn ysgol brif ffrwd, sy'n derbyn rhan o'u gwersi mewn dosbarth nad yw'n un arbennig.

Bydd disgyblion a eithrir yn parhau felly, unwaith eu bod wedi'u derbyn, am weddill eu hamser mewn dosbarth babanod, neu nes bod y nifer yn y dosbarth yn gostwng a bod modd eu trefnu i gydymffurfio â'r cyfyngiad ar faint dosbarthiadau babanod. Er enghraifft, os bydd plentyn nas eithrir yn gadael dosbarth, bydd un lle ychwanegol yn y dosbarth babanod, neu os penodir athro ychwanegol, yna ni fydd y plentyn hwnnw'n ddisgybl a eithrir bellach. Rhaid trefnu dosbarthiadau i gydymffurfio a'r cyfyngiadau lle bynnag y bo'n bosib.

| **Nifer Disgyblion - Bl. 7 2024/Pupil Numbers - Yr 7 2024** | | |
|---|---|---|
| **Ysgol/School** | **Rhif Derbyn/ Admission Number** | **Nifer Disgyblion/No. of Pupils 2024** |
| Aberaeron | 156 | 84 |
| Aberteifi | 115 | 107 |
| Bro Pedr | 150 | 93 |
| Bro Teifi | 111 | 73 |
| Henry Richard | 74 | 53 |
| Penglais | 209 | 190 |
| Penweddig | 170 | 94 |

| **Nifer Disgyblion - Derbyn 2024 a 2025/Pupil Numbers - Reception 2024 & 2025** | | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgol/School** | **Rhif Derbyn/ Admission Number** | **Nifer Disgyblion/No. of Pupils 2024** | **Nifer Disgyblion/No. of Pupils 2025** |
| Aberaeron | 28 | 23 | 31 |
| Aberporth | 25 | 17 | 13 |
| Aberteifi | 60 | 32 | 42 |
| Bro Pedr | 53 | 33 | 36 |
| Bro Sion Cwilt | 21 | 17 | 14 |
| Bro Teifi | 51 | 40 | 48 |
| Cei Newydd | 14 | 6 | 2 |
| Cenarth | 13 | 12 | 7 |
| Ciliau Parc | 9 | 7 | # |
| Comins Coch | 28 | 9 | 7 |
| Craig yr Wylfa | 10 | 1 | 6 |
| Dihewyd | 5 | 3 | # |
| Dyffryn Aeron | 30 | # | 20 |
| Dyffryn Cledlyn | 17 | 12 | 6 |
| Felinfach | 8 | 10 | # |
| Henry Richard | 17 | 15 | 19 |
| Llanarth | 12 | 13 | 3 |
| Llanfarian | 8 | 7 | 4 |
| Llanfihangel-y-Creuddyn | 5 | 2 | 1 |
| Llangwyryfon | 7 | 2 | 1 |
| Llanilar | 24 | 7 | 18 |
| Llanon | 8 | 7 | 3 |
| Llechryd | 12 | 3 | 0 |
| Llwyn Yr Eos | 29 | 30 | 22 |
| Myfenydd | 13 | 11 | 13 |
| Mynach | 7 | 5 | 5 |
| Padarn Sant | 19 | 18 | 9 |
| Penllwyn | 7 | 7 | 7 |
| Penparc | 20 | 9 | 23 |
| Penrhyncoch | 16 | 24 | 15 |
| Plascrug | 58 | 50 | 45 |
| Pontrhydfendigaid | 14 | 8 | 5 |
| Rhos Helyg | 17 | 5 | 6 |
| Rhydypennau | 27 | 30 | 24 |
| Syr John Rhys | 5 | 2 | 1 |
| T Llew Jones | 25 | 14 | 19 |
| Talgarreg | 9 | 8 | 3 |
| Talybont | 18 | 3 | 10 |
| Y Dderi | 19 | 10 | 7 |
| Y Gymraeg | 52 | 31 | 52 |